

Disgrifiad Swydd: Cyfarwyddwr Darpariaeth Addysg Gymraeg ac Iechyd Gwledig ac Anghysbell mewn Addysg Feddygol (RRHiME)

Coleg/Ysgol:	Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe
Adran/Pwnc:	Cyfarwyddwr Darpariaeth Addysg Gymraeg ac Iechyd Gwledig ac Anghysbell mewn Addysg Feddygol (RRHiME)
Cyflog:	£34,804 i £40,322 y flwyddyn a buddion Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)
Oriau gwaith:	35 awr yr wythnos
Contract:	Swydd am gyfnod penodol o 3 blynedd yw hon
Lleoliad:	Lleolir y swydd hon ar Gampws Singleton

Cyflwyniad	Er mwyn cyflawni ei huchelgais o fod yn un o'r 30 o brifysgolion gorau, mae angen ar Brifysgol Abertawe weithlu â'r sgiliau amrywiol angenrheidiol i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr; ac i fod yn bwerdy ar gyfer economi'r rhanbarth ac yn rhyngwladol.
Gwybodaeth gefndirol	<p>Mae Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe'n gwreiddio'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y rhaglen feddygol. Caiff siaradwyr Cymraeg rhugl gwblhau rhannau o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg a chânt eu hannog i weld eu dwyieithrwydd fel rhinwedd ychwanegol y gellir ei defnyddio i ddarparu gwasanaeth o safon well i gleifion Cymraeg eu hiaith mewn amgylcheddau clinigol. Mae myfyrwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn derbyn cymorth ac arweiniad i feithrin hyder a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac i fod yn gyfarwydd â nhw wrth iddynt hyfforddi a gweithio yng Nghymru. Nod yr ymagwedd hon yw cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion ieithyddol a'r rhwystrau a wynebir gan wasanaethau iechyd ledled y byd, a sicrhau bod cydnabyddiaeth am iaith a pharch at iaith yn rhan o anghenion gofal iechyd, yn hytrach nag ychwanegiad.</p> <p>Mae nifer o siaradwyr Cymraeg ymysg staff y rhaglen Meddygaeth i Raddedigion (GEM), y staff academiaidd a chlinigol, a'r staff rheoli hefyd. Bydd y Tîm Cymorth C?ymraeg, y byddwch chi'n ei arwain fel Cyfarwyddwr, yn gweithio gyda'r siaradwyr Cymraeg hyn i sicrhau bod Cymorth Cymraeg yn elfen gyflawn o'r rhaglen Meddygaeth i Raddedigion. Yn ogystal â hyn, mae'r rôl yn cynnwys arwain y rhaglen RRHiME (Iechyd Gwledig ac Anghysbell mewn Addysg Feddygol). Dyma lwybr sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ganolbwyntio ar elfennau'r rhaglen Meddygaeth i Raddedigion mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau clinigol a phrosiectau a ddewisir gan y myfyriwr.</p> <p>Nod yr ymagweddau hyn yw cynyddu ymwybyddiaeth myfyrwyr o gyfleoedd gyrfa ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes digon o feddygon ar hyn o bryd, megis cymunedau gwledig Cymru.</p>
Llwybrau Gyrfa Academiaidd	<p>Dyluniwyd cynllun y Llwybrau Gyrfa Academiaidd i sicrhau bod cryfderau academiaidd, boed mewn ymchwil, addysgu, profiad ehangach y myfyrwyr, arweinyddiaeth, neu arloesi ac ymgysylltu, i gyd yn cael eu cydnabod, eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo mewn modd priodol. Ceir tri llinyn academiaidd uwch: Addysgu ac Ysgolheictod Uwch; Ymchwil Uwch; ac Arloesi ac Ymgysylltu Uwch.</p> <p>Am ragor o wybodaeth am Llwybrau Gyrfa Academiaidd, cliciwch yma. Mae'r rhain yn darparu lefelau perfformiad dangosol ar gyfer yr holl staff academiaidd, a gaiff eu defnyddio drwy gydol y broses</p>

	<p>recriwtio. Lle ceir dangosyddion rhifiadol, caiff y rhain eu hasesu gan roi sylw i'r cam gyrfaol, yr oriau gwaith ac ymrwymadau eraill. Gall y rhain gynnwys amgylchiadau personol neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwaith y tu allan i'r gymuned academaidd, er enghraifft, mewn lleoliad diwydiannol neu glinigol. Mae croeso i chi nodi amgylchiadau unigol perthnasol megis saib yn eich gyrfa, unrhyw gyfnodau o wyliau neu ar secondiad, neu absenoldebau eraill, y dylid eu hystyried, a sut mae'r rhain wedi effeithio ar ddatblygiad eich gyrfa.</p>
<p>Prif Ddiben y Swydd: Addysgu ac Ysgolheictod Uwch</p>	<p>Disgwylir i Gyfarwyddwr y Ddarpariaeth Addysg Gymraeg arwain tîm bach, gan dderbyn lefel uchel o gyfarwyddyd gan Bennaeth y rhaglen Meddygaeth i Raddedigion, yn yr Ysgol Feddygaeth. Mae'r Gyfarwyddwr yn gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau canlynol mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn or-gymhleth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwr darpariaeth addysg Gymraeg y rhaglen Meddygaeth i Raddedigion • Cyfarwyddwr Iechyd Gwledig ac Anghysbell mewn Addysg Feddygol (RRHIE), gan gysylltu â'r Asiantaeth Gofal Sylfaenol • Hyrwyddo lles ehangach y cyhoedd yn eich holl weithredoedd, gweithredu mewn modd sy'n briodol yn foesegol, yn gyfreithiol ac yn gymdeithasol yn eich holl gysylltiadau â rhanddeiliaid ac aelodau'r tîm Meddygaeth i Raddedigion a'r Brifysgol. <p>O fewn y gyfarwyddiaeth Addysg Gymraeg ac RRHiME:</p> <p>Rheoli ac Arweinyddiaeth Strategol:</p> <p>Arwain y ddarpariaeth addysg Gymraeg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llunio a gweithredu'r strategaeth ar gyfer darpariaeth Addysg Gymraeg, gan weithio gyda'r Arweinydd Clinigol ac Academi Hywel Teifi. <ul style="list-style-type: none"> ○ Datblygu, cynnal a gweithredu prosesau rheoli ansawdd ar gyfer gweithgareddau ac allbynnau ○ Atgyfnerthu a dogfennu elfennau sylfaenol y prosiect (cwmpas, amserlen, gofynion adnoddau, cyllidebau, risgiau, cyfleoedd, heriau a gofynion ansawdd) • Bod yn bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau a darparu gwybodaeth am y Polisi Iaith Gymraeg, a chyflwyno'r rhaglen Meddygaeth i Raddedigion drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Rhyngweithio rhwng Rhaglen Meddygaeth i Raddedigion Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe ac Academi Hywel Teifi a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ○ Cynrychioli'r Ysgol Feddygaeth mewn digwyddiadau cyhoeddus cyfrwng Cymraeg megis Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod Cenedlaethol Cymru. ○ Cysylltu â chynrychiolydd yr Ysgol Feddygaeth ar Bwyllgor Strategaeth Iaith Gymraeg Prifysgol Abertawe ○ Cynrychioli'r Ysgol Feddygaeth ar Banel Addysg Gofal Iechyd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ○ Cydweithio'n barhaus ag Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog ei defnydd mewn addysg feddygol yng Nghymru ○ Cydweithio'n barhaus â chydweithwyr yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog ei defnydd mewn addysg iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. • Datblygu darpariaeth addysg Gymraeg yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Rheolwr prosiect y cynnig am gwrs GEM + Cymraeg i gynyddu cyfraddau recriwtio a chadw myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe a Chymru ○ Hwyluso dysgu mewn grwpiau bach a dan arweiniad gymheiriaid drwy gyfrwng y Gymraeg

- Cysylltu â rheolwyr addysg mewn ysbytai, rheolwyr dysgu yn y gymuned ac Arweinydd yr Asiantaeth Gofal Sylfaenol i ddatblygu cofrestr o leoliadau gwaith Cymraeg a chefnogi'r clinigwyr arwain i ddarparu dysgu mewn amgylchedd cyfrwng Cymraeg
- Trefnu cynllunio, datblygu a chyflwyno cwrs 'Addysgu'r Addysgwyr'
- Trefnu darparu cyrsiau 'Diweddarau Sgiliau' mewn Cymraeg feddygol ar gyfer myfyrwyr a staff
- Trefnu e-fodiwl mewn 'Cymraeg ar gyfer Gwyddoniaeth a Meddygaeth' er mwyn darparu cymorth i fyfyrwyr ar leoliadau mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith
- Trefnu cynhadledd flynyddol i hyrwyddo Cymraeg mewn addysg feddygol yng Nghymru
- Gweithredu fel cyswllt ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y broses Dderbyn, yn ogystal â gweithio gyda'r tîm Ehangu Mynediad i annog ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg i gyflwyno cais i ysgolion meddygaeth yng Nghymru
- Darparu adroddiad blynyddol am weithgarwch i gefnogi'r Gymraeg ar y rhaglen Meddygaeth i Raddedigion

Arwain Iechyd Gwledig ac Anghysbell mewn Addysg Feddygol (RRHIME)

- Cadeirydd Pwyllgor Staff RRHIME
- Rheoli ceisiadau myfyrwyr am y llwybr RRHIME
- Trefnu a rheoli cyfarfodydd a theithiau maes RRHIME
- Pwynt cyswllt ar gyfer cyfleoedd lleoliad y llwybr RRHIME
- Rheoli'r portffolio RRHIME ar-lein
- Cynrychioli RRHIME Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol
- Datblygu RRHIME
 - Mireinio'r llwybr RRHIME gan gynnwys strwythuro'r cwricwlwm RRHIME ymhellach, sicrhau cysondeb cyfranogiad myfyrwyr a golwg fanylach ar ymarfer gwledig yn ystod lleoliadau clinigol.

Addysgu wyneb yn wyneb

- Darlithoedd cyflwyniad i ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe
- Mentora academiaidd personol yn Gymraeg
- Trefnu goruchwyliaeth prosiect yn Gymraeg
 - Prosiect DPP
 - Astudiaethau Achos Teulu, a goruchwyllo a chefnogi myfyrwyr Astudiaeth Achos Teulu cyfrwng Cymraeg
- Hwyluso a chefnogi lleoliadau dysgu yn y gymuned drwy gyfrwng y Gymraeg
- Hwyluso a chefnogi lleoliadau Prentisiaeth Glinigol (1-4) drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynorthwyo mewn gweithgareddau Dderbyn ac Asesu yn ôl yr angen
- Cyfrannu at addysgu ar yr e-fodiwl 'Cymraeg ar gyfer Gwyddoniaeth a Meddygaeth' i ddarparu adnoddau ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar leoliadau, a hefyd ymdrin ag agweddau hanes a diwylliant ar wyddoniaeth a meddygaeth yng Nghymru.

Rheoli

1. Cyfrannu at ein Gweithgareddau: Cynorthwyo wrth lunio penderfyniadau'r Coleg neu'r Brifysgol a chyfrannu at weithgareddau y tu hwnt i ymrwymadau ymchwil, addysgu neu ysgolheictod uniongyrchol.

	<p>2. <u>Cymryd rhan mewn Gweithgareddau Proffesiynol</u>: Ymwneud â gweithgareddau proffesiynol sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth, drwy rwydweithio mewn cynadledau neu ymwneud â grwpiau allanol.</p> <p>3. <u>Rheoli eich hun ac eraill</u>: Cefnogi a galluogi datblygiad cydweithwyr, myfyrwyr a/neu eich hun.</p>
Ymchwil	<p>4. <u>Allbynnau a Gweithgarwch Ymchwil</u>: Lledaenu canfyddiadau ymchwil drwy gyfryngau ysgrifenedig, llafar neu gyfryngau priodol eraill, yn y Brifysgol a'r tu allan iddi.</p> <p>5. <u>Prosiectau a Grantiau Ymchwil</u>: Sicrhau'r adnoddau sy'n angenrheidiol i danategu gweithgarwch ymchwil/ysgolheictod/arloesi yn llwyddiannus yn briodol i'r ddisgyblaeth.</p>
Dyletswyddau Cyffredinol	<p>6. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chydweithredol.</p> <p>7. Cyflawni rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisiâu diogelwch, iechyd a chynladwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.</p> <p>8. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.</p> <p>Rhaid darparu tystysgrif DBS foddhaol cyn y gellir cadarnhau dyddiad dechrau</p>

Meini Prawf y Fanyleb Person	Tystiolaeth nodweddiadol:
Cymwysterau	
1. Addysg i lefel gradd neu gyfwerth	<i>Gradd BSc neu BA (Anrh.) gan sefydliad addysg uwch cydnabyddedig. Mae gradd bellach i lefel MSc neu gymhwyster ôl-raddedig pellach yn ddymunol.</i>
2. Cymhwyster addysgu cydnabyddedig a fyddai'n arwain at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu ymrwymiad i gyflawni hyn	<i>Os nad oes gennych gymhwyster addysgu cydnabyddedig, bydd angen tystiolaeth o ymrwymiad i weithio tuag at Gymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch neu gymhwyster cyfwerth.</i>
Addysgu Uwch	
3. Tystiolaeth o addysgu ac asesu effeithiol a threfnu rhaglenni addysgu a hyfforddiant	<i>Adborth da a/neu welliant o ran dilyniant neu gyfraddau cadw myfyrwyr</i>
4. Adolygu deunyddiau addysgu ac ymateb i adborth gan gydweithwyr neu fyfyrwyr.	<i>Cyfrifoldeb am nifer o fodiwlau israddedig, adolygu a diweddarau'r modiwl/rhannau o'r modiwl, neu greu modiwlau newydd o fewn 3 blynedd.</i>
5. Y gallu i fod yn diwtor effeithiol neu i oruchwylio prosiectau myfyrwyr gan arwain at ddeilliannau llwyddiannus	<i>Deilliannau llwyddiannus</i>
6. Tystiolaeth o arloesi mewn addysgu ac ymrwymiad i DPP	<ul style="list-style-type: none"> - Llwyddiant wrth wella addysgu, ynghyd â thystiolaeth o newid cadarnhaol ac adborth da gan gymheiriaid. - Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus drwy DPP dros y tair blynedd diwethaf a thystiolaeth o effaith hyn ar addysgu. - Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad gyrfaol personol a phroffesiynol
7. Cyfrannu at y gymuned academiaidd, yn fewnol neu'n allanol, a chydabyddiaeth gan gymheiriaid.	<ul style="list-style-type: none"> - Cymrodoriaeth o'r Academi Addysg Uwch neu gyfwerth (gweler uchod). - Tystiolaeth o gyfrannu ar lefel coleg a/neu'r sefydliad. - Cydnabyddiaeth allanol drwy rôl arbenigol.
Ymchwil graidd	
8. Tystiolaeth o ledaenu canfyddiadau ymchwil (neu'r gallu i wneud hyn) drwy gyfryngau ysgrifenedig, llafar	<i>Tystiolaeth nodweddiadol fyddai dau gyhoeddiad o ansawdd mewn pum mlynedd neu'r gallu i gyflawni hyn</i>

neu gyfryngau priodol eraill, yn y sefydliad ac yn allanol.	
9. Sicrhau'r adnoddau angenrheidiol i danategu'r gweithgarwch ymchwil/ysgolheictod/arloesi – profiad o ysgrifennu cynigion addysgol a chyflwyno ceisiadau i gyrff cyllido	<i>Tystiolaeth o sicrhau adnoddau allanol sy'n berthnasol i'r maes dros gyfnod o bum mlynedd.</i>
Rheoli craidd	
10. Cyfrannu'n weithredol at benderfyniadau a gweithgareddau mewn uned neu sefydliad academiaidd, y tu hwnt i ymrwymïadau ymchwil ac addysgu personol	<i>Engbreiffitiau sy'n dangos cyfraniad ac effaith bersonol</i>
Penodol i'r pwnc	
<p>11. Y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg a Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig</p> <p>12. Sgiliau cyfathrebu da</p> <p>13. Sgiliau trefnu da</p> <p>Meini Prawf Dymunol</p> <p>14. Profiad o ddefnyddio offer cynllunio prosiect megis MS Project</p> <p>15. Gwybodaeth am y sector addysg uwch yng Nghymru</p>	<p><i>Siaradwr cyhoeddus dwyieithog hyderus, yn Gymraeg ac yn Saesneg</i></p> <p><i>Tystiolaeth amlwg o sgiliau cyflwyno effeithiol, sgiliau ysgrifennu adroddiad a'r gallu i gyfathrebu ag amrywiaeth o randdeiliaid</i></p> <p><i>Tystiolaeth amlwg o'r gallu i reoli amrywiaeth o dasgau ar yr un pryd, ac i drefnu a blaenoriaethu eich gwaith eich hun a gwaith eraill er mwyn bodloni cerrig milltir prosiect</i></p> <p><i>Profiad o weithio yn yr amgylchedd addysg uwch ac ymwneud â rhanddeiliaid yn yr amgylchedd addysg uwch</i></p>
Manylion Cyswllt:	<p>Croesewir ymholiadau anffurfiol a dylid eu cyfeirio at sylw'r Athro Kamila Hawthorne, Pennaeth Meddygaeth i Raddedigion yn kamila.hawthorne@abertawe.ac.uk</p> <p>Dyddiad llunio'r rhestr fer: i'w gadarnhau</p> <p>Dyddiad y cyfweiliadau: i'w gadarnhau</p>

